cyngor ar bopeth | citizens advice

# Adroddiad Kept in the Dark (Cymru)

Ionawr 2023

## Miloedd o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu yng Nghymru yn methu â fforddio cadw'u trydan ymlaen

Yn 2022, fe helpodd swyddfeydd lleol Cyngor ar Bopeth yng Nghymru **fwy o bobl a oedd yn methu â fforddio rhoi arian tuag at eu mesuryddion rhagdalu (PPM)** mewn blwyddyn nag yr oedden nhw wedi'i wneud **yn ystod y deng mlynedd flaenorol**.

Mae ein hymchwil newydd[1] yn cadarnhau'r anawsterau mae llawer o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu yn eu hwynebu. Fe wnaeth bron i **un o bob tri defnyddiwr mesurydd rhagdalu yng Nghymru** (sy'n cyfateb i tua **140,000 o bobl**) redeg allan o gredyd ar eu mesuryddion rhagdalu'r llynedd oherwydd **nad oedden nhw'n gallu fforddio rhoi arian tuag ato**.

Fel arfer, mae gwneud rhagdaliad neu dalu wrth fynd yn ddull talu defnyddiol sy'n helpu pobl i gyllidebu a chadw rheolaeth ar eu defnydd o ynni. Ond nid yw'r rhain yn amseroedd arferol. Mae'r argyfwng costau byw wedi cynyddu biliau hanfodol pobl ac mae prisiau ynni wedi mwy na dyblu ers mis Hydref 2021.

Mae rhagdalu am eich ynni hefyd yn ddrutach. Pan fydd pobl yn ei chael hi'n anodd rhoi arian tuag at eu mesuryddion gall achosi iddyn nhw gael eu datgysylltu o gyflenwad ynni, gan arwain at fethu â throi'r gwres ymlaen, coginio pryd poeth neu hyd yn oed gadw offer meddygol hanfodol ymlaen.

Mae ein tystiolaeth ddiweddaraf[2] yn dangos:

Bod **32% o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu** yng Nghymru **wedi'u datgysylltu o'u cyflenwad ynni** dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd **na allan nhw fforddio ychwanegu ato**

Bod 23% wedi cael eu datgysylltu **o leiaf unwaith y mis**, gydag **un o bob deg** yn dweud eu bod wedi bod **heb ynni am fwy na 24 awr** o leiaf unwaith

Bod **71% o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu yn poeni am allu ychwanegu at eu mesurydd rhagdalu** tan fis Ebrill

Ers mis Mawrth 2022, ein bod wedi helpu mwy na **5,000 o bobl** yng Nghymru i gael **talebau tanwydd** fel y gallan nhw ychwanegu at eu mesurydd, a 1,300 o'r rheiny ym mis Rhagfyr yn unig.

*Os oes gennych gwestiynau neu os hoffech ragor o wybodaeth am gynnwys y briff yma, anfonwch e-bost i: policy.cymru@citizensadvice.org.uk*

## Materion allweddol eraill i lunwyr polisi

### 1. Mae pobl sy'n cael trafferth ychwanegu at eu mesurydd hefyd yn mynd heb hanfodion eraill[3]

- Mae **22% o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu yng Nghymru** sydd wedi cael eu datgysylltu dros dro oherwydd eu bod wedi rhedeg allan o gredyd wedi **hepgor prydau bwyd**, tra bod **24% heb olchi na chael cawod**.
- Mae **29%** wedi defnyddio blancedi, poteli dŵr poeth neu **wedi mynd yn ôl i'r gwely i gadw'n gynnes** yn ystod y dydd.
- Dywedodd **74%** o bobl sydd wedi'u datgysylltu ei fod wedi cael **effaith negyddol** ar eu **hiechyd meddwl**, a dywedodd hanner (51%) ei fod wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd corfforol.
- Gall canlyniadau byw heb wres neu drydan fod **yn arbennig o beryglus i bobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor**.

### 2. Mae mwy a fwy o bobl yn cael eu gorfodi i ddefnyddio mesuryddion rhagdalu

- Yn destun pryder, yn ystod 2022, mae swyddfeydd Cyngor ar Bopeth yng Nghymru hefyd wedi gweld **tair gwaith yn fwy o bobl** yn cael eu **symud i fesuryddion rhagdalu** (gan gynnwys newid eu mesurydd clyfar i ddull rhagdalu) **o ganlyniad i fod ar ei hôl hi o ran talu biliau ynni**, o gymharu â 2019.
- Yn seiliedig ar ffigurau Ofgem[4], mae Cyngor ar Bopeth yn amcangyfrif bod **27,000 o bobl yng Nghymru** wedi cael eu gorfodi i ddefnyddio mesurydd rhagdalu yn 2022 oherwydd na allent nhw fforddio eu biliau ynni.
- Rydyn ni'n rhagweld y gallai **7,500 yn fwy o bobl** yng Nghymru gael eu symud i fesurydd rhagdalu erbyn diwedd y gaeaf os na fydd camau'n cael eu cymryd.

## Beth sydd angen digwydd nesaf

Ym mis Medi 2022 galwodd Cyngor ar Bopeth am waharddiad dros dro dros y gaeaf ar osod mesuryddion rhagdalu (gan gynnwys switshis o bell) ar gyfer dyledion. Erbyn hyn, **nid ydym yn credu bod hyn yn ddigonol**. Er bod disgwyl i brisiau ynni ostwng o'u lefel bresennol, rhagwelir y byddan nhw'n parhau'n sylweddol uwch nag yr oedden nhw cyn y cynnydd diweddar mewn prisiau tan ddiwedd y degawd.

**Mae Cyngor ar Bopeth nawr yn galw am y canlynol:**

- **gwaharddiad llwyr ar osod mesuryddion rhagdalu gorfodol nes y cyflwynir mesurau diogelu newydd** sy'n sicrhau na ellir datgysylltu cartrefi'n llwyr. Rhaid i'r gwaharddiad yma gynnwys yr hen fesuryddion rhagdalu a switshis o bell ar gyfer mesuryddion clyfar.
- **adolygiad o holl ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu**, gydag ymrwymiad i osod mesuryddion credyd yn eu lle er mwyn osgoi'r angen i ddileu'r risg o ddatgysylltu.

Mae rhagor o fanylion yn adroddiad Cyngor ar Bopeth Kept in the Dark

[1] Data arolwg sy'n seiliedig ar arolwg cynrychiadol o 4,384 o oedolion (18+ oed) ym Mhrydain a gynhaliwyd gan Yonder Data Solutions ar ran Cyngor ar Bopeth, gyda sampl wedi'i atgyfnerthu ar gyfer Cymru (Cyfanswm = 724 o oedolion; 290 o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu). Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 6 ac 15 Rhagfyr 2022.
[2] Ibid
[3] Ibid
[4] Gweler cyfeirnod 3 yn adroddiad Kept in the Dark am fanylion y fethodoleg a ddefnyddiwyd.

cyngor ar bopeth | citizens advice